# Templed: datganiad blynyddol am uniondeb ymchwil

Os oes gennych gwestiynau am y templed hwn, e-bostiwch: RIsecretariat@universitiesuk.ac.uk.

Adran 1: Manylion cyswllt allweddol

| Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|
| **1A. Enw'r sefydliad** | Prifysgol Abertawe |
| **1B. Math o sefydliad:**<br><br>**sefydliad addysg uwch/diwydiant/sefydliad sy'n cynnal ymchwil annibynnol/arall (rhowch fanylion)** | Addysg Uwch |
| **1C. Dyddiad y cymeradwywyd y datganiad gan y corff llywodraethu (DD/MM/BB)** | 29 Hydref 2025 |
| **1Ch. Cyfeiriad gwe tudalen uniondeb ymchwil y sefydliad (os yw'n berthnasol)** | Uniondeb Ymchwil: Moeseg a Llywodraethu - Prifysgol Abertawe |
| **1D. Enw'r uwch-aelod staff i oruchwylio uniondeb ymchwil** | Enw: Dirprwy Is-ganghellor, yr Athro Helen Griffiths. |
| | Cyfeiriad e-bost: pvcresearch@abertawe.ac.uk |
| **1Dd. Enw'r aelod staff a fydd yn gweithredu fel cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw un a hoffai gael mwy o wybodaeth am faterion uniondeb ymchwil** | Enw: Mrs Anjana Choudhuri |
| | Cyfeiriad e-bost: researchintegrity@abertawe.ac.uk |

# Adran 2: Hyrwyddo safonau uchel o uniondeb ymchwil a diwylliant ymchwil cadarnhaol. Disgrifiad o gamau gweithredu a gweithgareddau a gwblhawyd

**2A. Disgrifiad o'r systemau a'r diwylliant presennol**

Mae'r Brifysgol yn parhau i gadarnhau ei hymrwymiad i greu amgylchedd ymchwil cynhwysol, agored a chyfrifol sy'n cefnogi ymchwilwyr a chydweithredwyr ac yn eu galluogi i gynnal ymchwil ag uniondeb.

**Polisïau a systemau:** Mae gan y Brifysgol fframwaith Uniondeb Ymchwil: Moeseg a Llywodraethiant. Caiff polisïau yn y fframwaith eu hadolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â rheoliadau presennol. Os caiff polisïau newydd eu creu yn y flwyddyn academaidd, cânt eu hychwanegu at y Fframwaith. Mae'r Brifysgol, dros y blynyddoedd diweddar, wedi gweithredu system ar-lein i asesu a chymeradwyo pob cais moeseg ymchwil. Mae'r system moeseg ymchwil yn gosod pob cais mewn categori yn ôl risg - isel, canolig ac uchel. Yn 2024/25, cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd o grŵp gwella gwasanaeth ar gyfer y system asesu moeseg ymchwil ar-lein i ddiweddaru'r cwestiynau er mwyn rhoi proses fonitro ar waith yn y sesiwn academaidd nesaf i reoli risgiau ymchwil.

Yn 2024/25, cyflwynodd y Brifysgol gais llwyddiannus am drwydded ymchwil i gynnal ymchwil gyda meinweoedd dynol. Datblygwyd cyfres o Weithdrefnau Gweithredu Safonol yn seiliedig ar fodel CORE yr Awdurdod Meinweoedd Dynol i sicrhau bod arferion yn gyson â pholisïau'r sefydliad a gofynion yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA). Caiff y Gweithdrefnau Gweithredu Safonol hyn eu hadolygu'n flynyddol ac maent yn darparu arweiniad clir mewn perthynas â storio, defnyddio a gwaredu meinweoedd dynol. Caiff goruchwyliaeth ei chofnodi yn y Llawlyfr Ansawdd Ymchwil Meinweoedd Dynol. Mae'n ofynnol i'r holl staff a myfyrwyr sy'n gweithio o dan drwydded ymchwil yr HTA gwblhau dau fodiwl hyfforddiant gorfodol cyn dechrau eu hymchwil: (i) Hyfforddiant Ymarfer Clinigol Da NIHR sy'n ymdrin â chyfrifoldebau allweddol mewn perthynas â chydsyniad a llywodraethiant; a (ii) cwrs e-ddysgu MRC UKRI, *Research and Human Tissue Legislation*, sy'n darparu hyfforddiant am y Ddeddf Meinweoedd Dynol, trwyddedu a defnydd moesegol o feinweoedd dynol.

- **Cyfathrebu ac ymgysylltu:** Mae staff yn yr Adran Cyfnewid Ymchwil a Gwybodaeth yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Datblygu a Hyfforddiant i Staff i hyrwyddo a chynnal cyfres o seminarau/weminarau mewnol ar gyfer yr holl staff a myfyrwyr sy'n ymgymryd ag ymchwil. Mae'r gweminarau hyn yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â chyllid ymchwil (e.e. datblygu a rheoli cynnig), uniondeb ymchwil, moeseg, llywodraethiant a diwylliant, ymchwil sy'n sensitif o ran diogelwch, eiddo deallusol, ymchwil ddibynadwy etc. Mae Arweinydd Cydymffurfiaeth Uniondeb Ymchwil y Brifysgol yn lledaenu gwybodaeth yn rheolaidd i staff yn y Cyfadrannau a'r Ysgolion am weminarau eraill a gynhelir ledled y DU gan

Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU (UKRIO), Pwyllgor Uniondeb Ymchwil y DU (UKCORI) ac Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI). Yn ogystal â hyn, trefnir sesiynau lledaenu gwybodaeth a chyfarfodydd diweddaru'n rheolaidd gydag aelodau'r Tîm Cydweithredu a Chynghori ar Ymchwil er mwyn sicrhau bod ymchwilwyr yn ymwybodol o ofynion rheoleiddiol y DU o ran cynnal ymchwil yn y meysydd sensitif hyn. Mae gan staff fynediad at yr hyfforddiant ar-lein am ddim ar Reoli Allforion a gynhelir gan y Gymdeithas Rheoli Allforion Addysg Uwch (HEECA). Cyhoeddir gwybodaeth am bolisïau, gweithdrefnau gweithredu safonol ac arweiniad ar dudalennau gwe Uniondeb Ymchwil, Llywodraethiant Ymchwil a Meinweoedd Dynol y Brifysgol. Mae porth Microsoft Teams penodol, "SU Human Tissue Governance", wedi'i greu fel system ganolog i staff a myfyrwyr gael mynediad at ddogfennau a reolir, lanlwytho cynlluniau wrth gefn a chynnal ffeiliau safleoedd casglu trwyddedig drwy sianelau preifat ar gyfer ymchwil gyda meinweoedd dynol.

- **<u>Diwylliant, datblygiad ac arweinyddiaeth</u>:** Darperir arweinyddiaeth yn y maes hwn gan y Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi) gyda chefnogaeth y Dirprwy Is-ganghellor ar gyfer Diwylliant Ymchwil a'r Arweinwyr Uniondeb a Moeseg Ymchwil yn y tair Cyfadran yn y Brifysgol.
  Darperir goruchwyliaeth ym meysydd llywodraethiant ymchwil, gan gynnwys ymchwil gyda meinweoedd dynol (Deddf Meinweoedd Dynol 2004), gan Gadeirydd Pwyllgor Goruchwyliaeth Ymchwil Prifysgol Abertawe a chan yr Unigolyn Dynodedig. Cefnogir gweithgarwch gweinyddu llywodraethiant ymchwil gan yr Arweinydd Cydymffurfiaeth Llywodraethiant Ymchwil, y Swyddog Llywodraethiant Meinweoedd Dynol a Swyddog Sicrhau Ansawdd. Mae rhwydwaith o unigolion dynodedig, a benodwyd ym mhob Ysgol sy'n gweithio gyda meinweoedd dynol, hefyd yn gyfrifol am oruchwyliaeth a monitro.

- **<u>Monitro ac adrodd</u>:** Mae pwyllgor trosfwaol y Brifysgol, y Pwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethiant Ymchwil (URIEGC), yn gyfrifol am fonitro uniondeb ymchwil. Mae'r pwyllgor hwn yn cael adroddiadau a diweddariadau rheolaidd gan is-bwyllgorau Moeseg a Llywodraethiant y Cyfadrannau, y Pwyllgor Goruchwylio Nawdd, AWERB ac unrhyw is-bwyllgorau neu grwpiau tasg a gorffen a sefydlir i adolygu atgyfeiriadau neu i ddatblygu polisïau, arweiniad a phrosesau. Mae aelodaeth URIEGC yn cynnwys y Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi) fel Cadeirydd, y Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol (Diwylliant Ymchwil), Arweinwyr Uniondeb a Moeseg Ymchwil y Cyfadrannau, cynrychiolwyr y Pwyllgor Llywodraethiant a Nawdd Ymchwil (gan gynnwys Meinweoedd Dynol), ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid (AWERB), rheolwyr data ymchwil, cynrychiolwyr Pwyllgor y Technegwyr, cynrychiolwyr ymchwilwyr gyrfa gynnar a chynrychiolydd y myfyrwyr. Caiff cydymffurfiaeth yn y maes hwn ei sicrhau drwy archwiliad mewnol cynlluniedig, goruchwylio dogfennaeth astudiaethau a strwythur adrodd am ddigwyddiadau niweidiol a chamau gweithredu unioni ac atal. Mae llwybrau adrodd clir yn sicrhau yr ymdrinnir â

digwyddiadau niweidiol mewn cydweithrediad ag ymchwilwyr ac y cânt eu huwchgyfeirio at Iechyd a Diogelwch, Ystadau neu'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn ôl yr angen. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd am ganlyniadau i Arweinwyr Moeseg a Llywodraethiant y Cyfadrannau, yr Unigolion Dynodedig, yr Is-bwyllgor Cydymffurfiaeth HTA, y Pwyllgor Goruchwylio Nawdd a Phwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethiant Ymchwil (URIEGC) y Brifysgol.

Caiff unrhyw bolisïau ac arweiniad a ddatblygir gan URIEGC eu cymeradwyo gan Senedd y Brifysgol, ynghyd â chofnodion ei gyfarfodydd rheolaidd.
Mae cyrff llywodraethu'r Brifysgol hefyd yn cymeradwyo adroddiad/datganiad blynyddol am Uniondeb Ymchwil cyn iddo gael ei gyflwyno i Medr.

**2B. Newidiadau a datblygiadau yn ystod cyfnod yr adolygiad**
*(Polisïau, systemau, mentrau, archwiliadau, hyfforddiant, datblygiadau newydd yn ystod 2024-25)*

- **Polisïau ac Arweiniad Newydd:** Yn ystod 2024/25, cymeradwyodd Pwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethiant Ymchwil y Brifysgol (URIEGC) rai polisïau ac arweiniad newydd, (e.e. Polisïau Digidol, Polisi Preifatrwydd, Arweiniad ar Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol mewn Ymchwil, Arweiniad Ymarfer Da o ran Recriwtio Cyfranogwyr i Brosiectau Ymchwil). Yn ogystal, derbyniodd y pwyllgor y newidiadau/diweddariadau i rai a oedd eisoes ar waith, (e.e. ffurflenni Porthgeidwad a Chydsyniad, Taflen Wybodaeth Cyfranogwyr). Sefydlwyd grŵp Tasg a Gorffen i gyfrannu at ddatblygu Arweiniad y Brifysgol ar Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol mewn Ymchwil. Yn sgîl hyn, cyfrannodd rhai aelodau o'r grŵp Tasg a Gorffen at ddatblygu Fframwaith y Brifysgol ar Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol ar gyfer staff, myfyrwyr, ymchwilwyr, cydweithredwyr ymchwil a staff y Gwasanaethau Proffesiynol. Cymeradwywyd y fframwaith hwn gan y Senedd a chyrff llywodraethiant eraill y Brifysgol i'w roi ar waith ym mis Hydref 2025. Ym maes meinweoedd dynol a llywodraethiant ymchwil, adolygwyd cyfres lawn o weithdrefnau gweithredu safonol ar sail model CORE yr HTA fel rhan o'r cylch llywodraethiant blynyddol a'r bwriad oedd cyhoeddi fersiynau diwygiedig ym mis Hydref 2025.

- **Prosesau Newydd:**

i. Proses fonitro ar gyfer ymchwil risg ganolig ac uchel: Yn 2024-25, cyflwynodd y Brifysgol system i fonitro ei holl ymchwil risg ganolig ac uchel drwy'r porth asesu moeseg ymchwil ar-lein. Mae'r broses fonitro yn sicrhau nad yw unrhyw gais yn y categori risg ganolig neu uchel yn cael ei gymeradwyo tan i'r ymgeisydd lofnodi ffurflen datganiad yn cadarnhau y byddai'n cynorthwyo gyda'r broses fonitro drwy gwblhau ffurflen fonitro bob tri mis. Mae'r broses fonitro'n disgwyl i ymgeiswyr gyflwyno adroddiad diwedd prosiect wrth gwblhau'r prosiect. Rhoddwyd y broses fonitro ar waith yn ystod sesiwn academaidd 2025-26.

ii. Ehangu safleoedd â thrwydded yr HTA, Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ac

Archwiliadau: Ym mis Ionawr 2025, cafodd yr Adran Gwyddor Chwaraeon ei chymeradwyo'n ffurfiol gan yr HTA fel safle ategol o dan drwydded ymchwil y Brifysgol. Gwnaed gwaith paratoi yn ystod 2024 i sicrhau bod yr Adran yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Gweithredu Safonol CORE ac arfer gorau cyn iddi gael ei chymeradwyo. Ym mis Mawrth 2025, ar ôl i'r Deiliad Trwydded a Enwir adael, cadarnhawyd y Dirprwy Is-ganghellor ar gyfer Ymchwil ac Arloesi fel deiliad newydd Trwydded yr HTA. Gwnaeth y newid hwn sicrhau bod y drwydded yn cael ei goruchwylio'n barhaus gan aelod o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth. Cafodd arwyddion am storio meinweoedd dynol eu cyflwyno mewn adeiladau a labordai amrywiol gydag arwyddion ychwanegol ar gyfer fflasgiau Dewar sy'n cynnwys nitrogen hylif. Mae meysydd storio wrth gefn yn cael eu datblygu. Mae'r diweddariadau hyn wedi sicrhau gwell ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau'r drwydded a chymorth. Parhawyd i gynnal archwiliadau mewnol o weithgarwch casglu meinweoedd dynol ar sail dreigl, gan sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Ddeddf Meinweoedd Dynol.

- **Ymchwil gydag anifeiliaid:**

Parhaodd pwyllgor AWERB Prifysgol Abertawe i adolygu'n weithredol yr holl weithgareddau ymchwil a oedd yn cynnwys anifeiliaid gwarchodedig (yn ôl diffiniad y Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) ac a oedd yn ymriadol eu natur (h.y. yn cynnwys dal, trin, cyffwrdd a/neu gyfyngu) ar y campws ac yn y maes. Mae hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) ac yn darparu sicrwydd i'r sefydliad bod proses ar waith i atal gweithgarwch anawdurdodedig. Cafodd yr holl weithgareddau ymchwil eraill gydag anifeiliaid (e.e. astudiaethau arsylwi, astudiaethau a oedd yn cynnwys cramenogion dectroed) eu hadolygu gan y Cyfadrannau perthnasol. Cyfarfu'r AWERB yn rheolaidd i drafod unrhyw drwyddedau ar gyfer prosiectau a oedd yn yr arfaeth ac yn gofyn am adolygiad; unrhyw ddiweddariadau a ddarparwyd gan y Swyddfa Gartref a'r holl weithgareddau ymchwil presennol yn y sefydliad. Roedd aelodaeth AWERB yn cynnwys deiliad trwydded y sefydliad, yr unigolion dynodedig, aelod lleyg ac arbenigwyr academaidd o'r Cyfadrannau perthnasol. Yn 2025, cynhaliwyd archwiliad llwyddiannus o'r cyfleusterau ar gyfer cadw anifeiliaid yn y Brifysgol gan yr Uned Rheoleiddio Anifeiliaid mewn Gwyddoniaeth (ASRU). Ar wahân i fân argymhellion i gryfhau cydymffurfiaeth barhaus, ni chafodd unrhyw faterion diffyg cydymffurfiaeth eu nodi yn yr archwiliad. Yn ogystal â hyn, cafodd y cyfleuster ei archwilio'n llwyddiannus gan yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â'i waith gydag Organebau Uwch sydd wedi'u Haddasu'n Genetig (GMHOs). Mewn seremoni a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2025 yn nathliad blynyddol yr Aquaculture Awards, cyflwynwyd y wobr **Iechyd a Llesiant Anifeiliaid** i'r tîm ymchwil yng Nghanolfan Ymchwil Dyfrol Cynaliadwy (CSAR) Prifysgol Abertawe i gydnabod ei gyfraniadau neilltuol at lesiant anifeiliaid.

- **Llywodraethiant Ymchwil**

Gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn i gryfhau goruchwyliaeth a rheolaeth uniondeb ymchwil prosiectau, yn enwedig drwy barhau i weithredu ac optimeiddio'r porth moeseg ymchwil ar-lein ar gyfer nawdd. Mae'r porth moeseg ymchwil ar-lein wedi ein galluogi i olrhain ceisiadau nawdd yn fwy effeithlon, wedi gwella tryloywder mewn prosesau penderfynu ac wedi hwyluso cyfathrebu gwell rhwng ymchwilwyr ac aelodau'r tîm llywodraethiant ymchwil. Mae asesiad risg prosiectau hefyd yn monitro'r astudiaethau cymeradwy'n weithredol, gan sicrhau gwell goruchwyliaeth a chydymffurfiaeth â safonau'r sefydliad a rheoleiddiol. Nod yr ymdrechion hyn yw meithrin amgylchedd llywodraethiant mwy cadarn ac ymatebol, sy'n cefnogi ansawdd ac uniondeb ymchwil. Adolygwyd nifer o astudiaethau IRAS hanesyddol gan y Pwyllgor Goruchwylio Nawdd i sicrhau bod y ddogfennaeth yn cydymffurfio â safonau cyfredol. Cynhaliodd y Brifysgol Hunanasesiad wedi'i Werthuso (ESA) hefyd fel rhan o fodel uwch yr HTA ar gyfer ymwneud â rheoliadau. Cadarnhaodd yr HTA fod y Brifysgol yn cydymffurfio’n sylweddol â’r holl safonau ymchwil cymwys. Canmolodd cynrychiolwyr yr HTA welliannau cynlluniedig y Brifysgol, yn enwedig y bwriad i gyflwyno meistr-ffeil ddigidol yn Microsoft Teams a'r system feddalwedd a oedd yn yr arfaeth i reoli labordai.
Cafodd *'prosiectau nad ydynt yn cael eu noddi'* a gynhelir ar safleoedd y Brifysgol eu hasesu, eu hadolygu a'u monitro hefyd yn 2024-25 a'r nod oedd sicrhau bod y rhain yn cydymffurfio â gofynion llywodraethiant ymchwil a rheoliadau meinweoedd dynol.

- **Diwylliant Ymchwil:**

Yn 2024/25, prif nod y gwaith a wnaed ym maes Diwylliant Ymchwil oedd gwreiddio ymhellach y camau gweithredu a amlinellwyd yn y Cynllun Gweithredu Diwylliant Ymchwil (Galluogi rhagoriaeth mewn ymchwil gyfrifol, Cydnabod cyfraniadau amrywiol, Datblygu Gyrfaoedd, Cysylltu a Pherthyn, a Lles).

Dyma rai o uchafbwyntiau a meysydd cynnydd o'r cynllun gweithredu Diwylliant Ymchwil:

i. Galluogi rhagoriaeth mewn ymchwil gyfrifol: Mae Prifysgol Abertawe'n un o lofnodwyr CoARA (Coalition of Advancement of Research Assessment). Mae wedi cyhoeddi ei chynllun gweithredu CoARA. Mae'r Rheolwr Diwylliant Ymchwil yn gyd-arweinydd ar gyfer Cangen Genedlaethol CoARA y DU. Fel rhan o ymrwymiad y Brifysgol i ddiwygio asesu ymchwil, cynhaliwyd diwygiad helaeth o’r Llwybrau Gyrfa Academaidd. Roedd y broses yn cynnwys metrigau a dangosyddion perfformiad allweddol a'r nod oedd uchafu ansawdd ac effaith gyrfaoedd academaidd. Bwriad y Llwybrau Gyrfa Academaidd oedd cydnabod cyfraniadau amrywiol academyddion at ymchwil (er enghraifft, arferion ymchwil agored, mentora a chyfrannu at ddatblygiad eraill). Drwy arolwg gwerthuso, aeth prosiect a ariannwyd gan CoARA Casgade Boost ati i werthuso effaith y

newidiadau hyn ar ein cymuned academaidd yn y Brifysgol.

ii. <u>Cydnabod cyfraniadau amrywiol</u>: Parhaodd Ymrwymiad y Technegwyr i fynd o nerth i nerth drwy ddatblygu cynllun gweithredu arobryn newydd ar gyfer cymuned y technegwyr a'r pedwerydd Symposiwm Blynyddol a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2025. Cynhaliwyd Wythnos Gwerthfawrogi Ymchwilwyr Ôl-ddoethurol ym mis Medi 2024 i gydnabod cyfraniadau amrywiol ein cymuned ôl-ddoethurol at ymchwil ac arloesi.

iii. <u>Datblygu Gyrfaoedd</u>: Ariannwyd cyfleoedd hyfforddiant cynhwysol Advance HE drwy gronfa Diwylliant Ymchwil Medr. Mae'r hyfforddiant hwn yn cefnogi lleoedd ar raglenni arweinyddiaeth â phwyslais ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb yn y Brifysgol, gan gynnwys Arweinyddiaeth Aurora, mentora Aurora ac Amrywio Arweinyddiaeth. Derbyniwyd 49 o geisiadau am 15 lle ar yr hyfforddiant. Mae'r lleoedd hyn a ariennir yn ein cefnogi i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd yn ddiweddar pan ddyfarnwyd Siarter Cydraddoldeb Hil i Brifysgol Abertawe. Yn ogystal, cefnogwyd saith ymchwilydd gyrfa gynnar a rhai yng nghanol eu gyrfaoedd i gymryd rhan yn rhaglen arweinyddiaeth ymchwil Crwsibl Cymru 2025. Cefnogwyd saith ymchwilydd hefyd i gymryd rhan yn Rhaglen Arweinyddiaeth Ymchwil Prifysgolion Cymru 2024/25.

iv. <u>Cysylltu a Pherthyn</u>: Roedd y sesiynau hyfforddiant a datblygu niferus a gynhaliwyd drwy'r gyfres Cyfnewid Ymchwil a Gwybodaeth (REIS) yn cynnwys hyfforddiant 'Gwyliwr Gweithredol' sy'n codi ymwybyddiaeth o weithdrefnau bwlio ac aflonyddu. Ym mis Tachwedd 2024, lansiodd Diwylliant Ymchwil y rhaglen Mentora Ymchwilwyr. Mae'r cynllun mentora peilot chwe mis o hyd hwn ar gyfer ymchwilwyr ôl-ddoethurol ac academyddion sydd ar ddechrau neu yng nghanol eu gyrfaoedd a chânt eu mentora ar gyfer datblygiad gyrfa gan uwch-academyddion. Bwriedir gwerthuso carfan cynllun peilot y Rhaglen Mentora Ymchwilwyr (28 o fentoriaid a 32 o gyfranogwyr) yn hydref 2025.

v. <u>Lles</u>: Drwy gyllid Iechyd a Lles Medr, bydd prosiect peilot yn rhoi'r rhaglen 'Prevail' ar waith sydd â'r nod o wella iechyd meddwl a lles staff academaidd a myfyrwyr ôl-raddedig. Gellir darllen erthygl newyddion flaenorol am hyn <u>yma</u>.

vi. <u>Arolwg CEDAR</u> Cymerodd Abertawe ran yn CEDARS 2025 (Arolwg Diwylliant, Cyflogaeth a Datblygiad Ymchwilwyr Academaidd). Cwblhaodd 353 o aelodau staff yr arolwg. Byddai dadansoddiad o ddata'r arolwg ac adborth gan y gymuned ymchwil yn cefnogi'r elfen Pobl, Diwylliant ac Amgylchedd yn REF2029; y Concordat Datblygiad Ymchwilwyr; y Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil a'r Wobr Rhagoriaeth AD mewn Ymchwil.

**2C. Myfyrdodau ar gynnydd a chynlluniau ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol:** *(Dylai hyn gynnwys myfyrdod ar weithgarwch y flwyddyn flaenorol, gan gynnwys adolygiad o gynnydd ac effaith mentrau os*

*yw'n hysbys, mewn perthynas â gweithgareddau y cyfeiriwyd atynt yn natganiad y flwyddyn flaenorol. Tynnwch sylw at unrhyw faterion sydd wedi rhwystro cynnydd, e.e. adnoddau neu faterion eraill.*

Roedd Adroddiad Blynyddol Uniondeb Ymchwil 2023-24 wedi amlygu ychydig o feysydd lle'r oedd angen cynnydd. Gwnaed cynnydd yn rhai o'r meysydd hyn yn ystod 2024-25:

- Monitro ymchwil risg uchel: Rhoddwyd system ar waith i fonitro ymchwil risg ganolig ac uchel ym mis Medi 2025.
- Arweiniad ar AI Cynhyrchiol mewn Ymchwil ac Arloesi: Cyflwynwyd arweiniad ar AI Cynhyrchiol ar gyfer Ymchwil a Fframwaith AI Cynhyrchiol ar gyfer staff, myfyrwyr a chydweithredwyr ymchwil ar ddechrau sesiwn academaidd 2025-26.
- Meinweoedd Dynol: Wrth i'r Brifysgol ymgysylltu â'r HTA drwy'r Hunanasesiad wedi'i Werthuso rhwng mis Awst a mis Medi 2025, cafwyd dilysiad allanol gwerthfawr o'r systemau hyn. Cydnabu'r HTA fod Abertawe'n cydymffurfio'n sylweddol, gan ganmol y fframwaith llywodraethiant. Yn ogystal, amlygodd yr Hunanasesiad feysydd i'w cryfhau ymhellach, yn enwedig digideiddio cofnodion allweddol a gwella rheolaeth dogfennau. Rydym yn mynd i'r afael â'r rhain drwy welliannau cynlluniedig, gan gynnwys cyflwyno meistr-ffeil ddigidol a system fwy hirdymor i reoli labordai. Gan edrych i'r dyfodol, mae blaenoriaethau'n cynnwys cwblhau'r broses o gyflwyno'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol CORE diwygiedig. Cwblhau'r gwaith o ddigideiddio ffeiliau pob safle trwyddedig a gwreiddio'r prosesau hyn drwy'r hyb llywodraethiant ar Teams. Ehangu'r fframwaith cynllunio wrth gefn, gan gynnwys arwyddion ar gyfer fflasgiau Dewar sy'n cynnwys nitrogen hylif ac ehangu galluoedd storio wrth gefn.

Roedd datganiad blynyddol Uniondeb Ymchwil 2023-24 wedi amlygu rhai meysydd y byddai angen cynnydd ynddynt ym mlwyddyn academaidd 2024-25

- Mireinio'r polisi a'r prosesau ar gyfer diwydrwydd dyladwy ac ymchwil ddibynadwy a hyfforddiant Uniondeb Ymchwil: Nid oedd modd gweithredu yng nghylch y rhain oherwydd cyfyngiadau ariannol a diffyg adnoddau (o ran y gallu i lenwi'r swydd Rheolwr Ymchwil Ddibynadwy).

- Polisi ar gyfer marcio neu gosbi prosiectau ymchwil myfyrwyr nad oes cymeradwyaeth foesegol ganddynt: Lluniwyd polisi ar gyfer marcio neu gosbi prosiectau myfyrwyr nad oes ganddynt gymeradwyaeth foesegol am yr ymchwil a wnaed yn 2024-25. Cafwyd ymrwymiad i gymryd y cam gweithredu hwn yn Adroddiad Uniondeb Ymchwil blynyddol 2023-24 ac mae wedi'i weithredu bellach. I sicrhau cysondeb a thryloywder prosesau ym mhob rhan o'r Brifysgol, mae'r polisi yn amlinellu sut y dylid trin prosiectau o'r fath ac a

ddylid eu hasesu/marcio neu eu cosbi. Ar ôl trafodaethau â thimau ansawdd a systemau'r Brifysgol, mae gweithdrefn y Brifysgol a gyhoeddwyd yn mynnu cymeradwyaeth ôl-weithredol lle bo hyn yn bosib. Yn achos diffyg cydymffurfiaeth, mae gwaharddiad llwyr ar yr ymchwil a gynhaliwyd. Dirprwyir penderfyniadau ynghylch marcio a chosbau posib i'r Cyfadrannau.

**Datblygiadau ar gyfer 2025-26**

- Polisi ar gyfer marcio neu gosbi prosiectau ymchwil myfyrwyr nad oes ganddynt gymeradwyaeth foesegol: Bydd y gweithdrefnau a luniwyd (gweler uchod) yn cael eu treialu i ddechrau yng Nghyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol. Yn ystod 2025/26, ymgynghorir ymhellach â'r Cyfadrannau, â'r nod o ehangu'r gweithdrefnau presennol.

- Yn ystod 2025/26, byddai'r Brifysgol yn llunio **'Côd Ymarfer Da ar gyfer Ymchwil'.**

# Adran 3: Mynd i'r afael â chamymddygiad mewn ymchwil

| **3A. Datganiad am y prosesau sydd ar waith gan y sefydliad ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddygiad.**<br><br>*Darparwch:*<br>• grynodeb byr o bolisïau/brosesau perthnasol y sefydliad (e.e. gweithdrefn camymddygiad mewn ymchwil, polisi chwythu'r chwiban, polisi bwlio/aflonyddu; penodi trydydd parti i fod yn gyswllt cyfrinachol i'r rhai sy'n dymuno mynegi pryderon) a gwybodaeth gryno am yr adolygiad cyfnodol o brosesau camymddygiad mewn ymchwil (e.e. dyddiad yr adolygiad diwethaf; unrhyw newidiadau pwysig yn ystod cyfnod yr adolygiad; y dyddiad pan gaiff prosesau eu hadolygu'r tro nesaf).<br>• gwybodaeth am sut mae'r sefydliad yn creu ac yn sefydlu amgylchedd ymchwil lle mae'r holl staff, ymchwilwyr a myfyrwyr yn teimlo'n gyfforddus i roi gwybod am gamymddygiad (e.e. côd ymarfer ymchwil, chwythu'r chwiban, gweithdrefn camymddygiad mewn ymchwil, proses gysylltu anffurfiol, tudalennau gwe sy'n cyfeirio at systemau adrodd, hyfforddiant, mentora, myfyrio ar bolisïau, arferion a gweithdrefnau a'u gwerthuso).<br>• gwersi allweddol dienw a ddysgwyd o ymchwiliadau i honiadau o gamymddygiad sydd naill ai wedi nodi cyfleoedd i wella gweithdrefn ymchwilio a/neu bolisïau/gweithdrefnau/prosesau/diwylliant y brifysgol, neu a ddangosodd eu bod yn gweithio'n dda. |
|---|
| • Mae gan y Brifysgol bolisi ar gyfer Ymdrin â Honiadau o Gamymddygiad mewn Ymchwil sydd ar gael i bawb ar dudalennau gwe Uniondeb Ymchwil y Brifysgol. Polisi Camymddygiad mewn Ymchwil - Prifysgol Abertawe. Ceir hefyd bolisi ar Chwythu'r Chwiban er Budd y Cyhoedd (P2122-341-Whistleblowing-(Public-Interest-Disclosure)-Policy.pdf) a pholisi Urddas yn y Gweithle ac wrth Astudio (Polisi Urddas yn y Gweithle ac wrth Astudio - Prifysgol Abertawe )<br>• Mae cyfeiriad e-bost cyfrinachol (researchmisconduct@abertawe.ac.uk ar gael i unrhyw un sydd am gyflwyno cwyn ynghylch arferion ymchwil amhriodol.<br>• Y Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi) yw'r 'cyswllt a enwir' yn y Brifysgol ar gyfer derbyn honiad.<br>• Mae Arweinwyr Moeseg ac Uniondeb y Cyfadrannau hefyd yn gweithio fel 'Cynghorwyr Uniondeb Ymchwil' ac yn cynorthwyo wrth ymdrin ag ymholiadau a darparu cymorth i ymchwilwyr yn y Cyfadrannau.<br>Fel y'i nodwyd yn yr adrannau blaenorol, mae mentora, hyfforddiant gwyliwr gweithredol (gan gynnwys aflonyddu a bwlio), hyfforddiant am ymarfer ymchwil da ac atal camymddygiad mewn ymchwil yn cael eu cynnal gan aelodau'r timau Uniondeb Ymchwil a Diwylliant Ymchwil.<br>Mae'r broses ar gyfer adrodd am gamymddygiad mewn ymchwil neu arferion ymchwil amheus wedi cael ei hadolygu i gynnwys proses sgrinio ymlaen llaw. Mae'r broses wrthi'n cael ei hadolygu ymhellach i weld a oes modd ymdrin ag |

ymholiadau neu wrthdaro mewnol yn y Cyfadrannau cyn eu cyfeirio at sylw'r gwasanaethau canolog.
Yn sgîl honiad o anwiriad, lluniwyd canllaw i ymarfer da wrth recriwtio cyfranogwyr mewn ymchwil.

**3B. Gwybodaeth am ymchwiliadau i gamymddygiad mewn ymchwil a gynhaliwyd**

Cwblhewch y tabl i nodi nifer yr **ymchwiliadau ffurfiol a gwblhawyd yn ystod cyfnod yr adolygiad** (gan gynnwys ymchwiliadau a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn ond a gychwynnwyd yn y flwyddyn academaidd flaenorol). Ni ddylid cyflwyno gwybodaeth o ymchwiliadau sydd ar y gweill o hyd. Gall gweithdrefn sefydliad gynnwys cam cychwynnol, rhagarweiniol neu sgrinio i benderfynu a oes angen cwblhau ymchwiliad ffurfiol. Dylid cynnwys yr honiadau hyn yn y golofn gyntaf, ond dim ond y rhai hynny a symudodd o'r cam hwn i ymchwiliadau ffurfiol a ddylai gael eu cynnwys yn yr ail golofn.

| **Math o honiad** | **Nifer yr honiadau** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer yr honiadau a oedd yn destun adroddiad i'r sefydliad** | **Nifer yr ymchwiliadau ffurfiol** | **Nifer a gadarnhawyd yn rhannol yn dilyn ymchwiliad ffurfiol** | **Nifer a gadarnhawyd yn llawn yn dilyn ymchwiliad ffurfiol** |
| Anwiriad | *1* | *0* | *0* | *0* |
| Ffugio | *1* | *0* | *0* | *0* |
| Llên-ladrata | *1* | | | |
| Methiant i gyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol, moesegol a phroffesiynol | *1* | | | |
| Camliwiad (e.e. data; cyfranogiad; buddiannau; cymwysterau; a/neu hanes cyhoeddi) | *1* | *0* | *0* | *0* |
| Ymdrin yn amhriodol â honiadau o gamymddygiad | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sawl maes pryder (wedi'u cynnwys mewn un honiad) | | | | |
| *Arall** | | | | |
| **Cyfanswm:** | **5** | **0** | **0** | **0** |
| ***Os oes unrhyw honiadau wedi'u rhestru yn y categori 'Arall' rhowch grynodeb byr, lefel uchel, o'u math yma. Peidiwch â rhoi gwybodaeth gyfrinachol neu a allai adnabod unigolyn wrth ymateb.** | | | | |
| *[rhowch ymateb os yw'n berthnasol]* | | | | |